

Agenda Hawdd ei Ddeall

Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu

Rhagfyr

12

Cyfarfod ar ddydd Mawrth 12 Rhagfyr 2023




Amser: **12.15pm** i **1.15pm**



Lle: Ar-lein drwy Zoom.

Gallwch archebu lle i ymuno â'r cyfarfod yma:
https://us02web.zoom.us/meeting/register/tZYrfu-tqzMoE9UZzhTrMmhO3e2pE_D79HZv





Agenda

Am beth y byddwn ni yn siarad yn ein cyfarfod

Amser

Beth a phwy



1. Croeso a chyflwyniadau

Mae Sioned Williams yn Aelod o'r Senedd ac yn Gadeirydd y grŵp.

Mae Sara Pickard yn gweithio i Mencap Cymru ac yn gyd-Ysgrifennydd y grŵp.

Fe fydd Sioned a Sara yn croesawu pawb i'r cyfarfod.

2. Addysg arbenigol ar ôl 16 mlwydd oed



Bydd Kirsten Jones o Natspec yn siarad am rai o'r problemau mae pobl ifanc ag anabledd dysgu yn eu profi wrth geisio dod o hyd i'r cwrs coleg cywir ar ôl 16 mlwydd oed.

Mae Natspec yn sefydliad sy'n cynrychioli darparwyr addysg arbenigol ar gyfer myfyrwyr ag anableddau dysgu.



3. Problemau wrth ddod o hyd i'r cyrsiau coleg cywir

Bydd 2 deulu yn siarad am y problemau maen nhw wedi'u hwynebu wrth geisio dod o hyd i'r cyrsiau coleg cywir ar gyfer pobl ifanc ag anabledd dysgu.



4. Cwestiynau

Fe fydd amser i bobl ofyn cwestiynau am y cyflwyniadau.



5. Unrhyw fater a syniadau eraill ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Bydd Sioned yn siarad am unrhyw beth arall sy'n bwysig.

Bydd hefyd yn gofyn am syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.



6. Cau

Bydd Sioned yn cau'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 1.15pm..